Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Gynhadledd Ymchwil a Datblygu MIT 2024 – Meithrin Syniadau Beiddgar i Gefnogi Arloesi

MA Cambridge – Afon Charles

**Fel aelod o Raglen Cyswllt Diwydiannol (ILP) MIT, gall Llywodraeth Cymru hwyluso cyfle i nifer bach o fusnesau yng Nghymru fynychu cenhadaeth 4/5 diwrnod i MIT i ymuno â Chynhadledd Ymchwil a Datblygu 2024 a gynhelir ar 19 a 20 Tachwedd.**

## Tachwedd 19-20, 2024, Gwesty'r Marriott, Cambridge Massachusetts, UDA

Mae MIT wedi'i rymuso gan ei ecosystem ymchwil a datblygu amrywiol i ddyfeisio technolegau sylfaenol a meithrin cydweithrediadau rhyngddisgyblaethol.


Bydd cynhadledd Ymchwil a Datblygu flaenllaw flynyddol eleni yn arddangos gwaith ymchwil a datblygu diweddaraf MIT mewn meysydd technoleg hanfodol, gan gynnwys AI, symudedd, gwyddor bywyd, technoleg gofod, microelectroneg, a chyfrifiadura cwantwm.

Bydd y gynhadledd yn cynnig mewnwelediadau a safbwyntiau amhrisiadwy ar greu strategaethau arloesi cydlynol wrth weithredu'r technolegau a sicrhau effaith ystyrlon, gan gynnwys yr ymchwil ddiweddaraf yn Labordai Technoleg Mircosystemau (MTL) MIT ac ymchwilwyr enwog a chyfadrannau MIT eraill, busnesau newydd sy'n gysylltiedig â MIT o Gyfnewidfa Busnesau Newydd MIT, yn ogystal â chynrychiolwyr a siaradwyr corfforaethol byd-eang.

Yn ogystal â mynychu'r gynhadledd, bydd eich busnes yn cael cyfle i wneud y canlynol:

- Cwrdd ag aelodau o gyfadran MIT; pob un yn arweinwyr y byd mewn meysydd fel gwyddoniaeth, technoleg a pheirianneg
- Rhwydweithio gyda busnesau byd-eang eraill a chyfnewid syniadau a chydweithio i fynd i'r afael â phroblemau cyffredin.

I gael rhagor o wybodaeth am y gynhadledd, cliciwch yma.



Gromen Fawr yr MIT yn Boston, UDA

# Gynhadledd Ymchwil a Datblygu MIT 2024 – Meithrin Syniadau Beiddgar i Gefnogi Arloesi

## Amserlen

Byddwch yn archebu ac yn trefnu eich taith, eich trosglwyddiadau a'ch llety eich hun, ond bydd gan Lywodraeth Cymru gynrychiolydd a fydd yn mynychu fel y nodir isod, (nodwch y **gall hyn newid**).

3 noson, 4 diwrnod fel a ganlyn:

- Dydd Llun 18 Tachwedd – gadael y DU
- Dydd Mawrth 19 Tachwedd – Diwrnod 1 y Gynhadledd
- Dydd Mercher 20 Tachwedd – Diwrnod 2 y Gynhadledd a photensial ar gyfer cyfarfodydd prynhawn gyda chyfadran MIT
- Dydd Iau 21 Tachwedd – Diwrnod Rhwydweithio a photensial ar gyfer cyfarfodydd prynhawn gyda chyfadran MIT
- Gadael UDA (hedfan dros nos) ddydd Iau 21 Tachwedd, gan gyrraedd yn ôl yn y DU ddydd Gwener 22 Tachwedd

## Costau

Mae'r tâl mynediad i'r gynhadledd eisoes wedi'i gynnwys drwy aelodaeth Llywodraeth Cymru o'r Rhaglen Cyswllt Diwydiannol.

Gall ymgeiswyr sydd â diddordeb wneud cais i Lywodraeth Cymru i dderbyn cymhorthdal grant o hyd at 50% neu £1000 (p'un bynnag yw'r swm lleiaf), tuag at y daith hedfan a/neu'r llety yn unig. Byddwch yn gyfrifol am yr holl gostau gan gynnwys trosglwyddiadau, Visa/ESTA, bwyd ac adloniant. Gall ail gynrychiolydd o'r un sefydliad hefyd wneud cais i fynychu a derbyn hyd at 25% neu £500 (p'un bynnag yw'r swm lleiaf) tuag at y daith hedfan a/neu'r llety yn unig. Byddwch yn gyfrifol am yr holl gostau gan gynnwys trosglwyddiadau, Visa/ESTA, bwyd ac adloniant.

**Byddwch yn archebu ac yn trefnu eich taith, eich trosglwyddiadau a'ch llety eich hun.**

Bydd y gost derfynol yn dibynnu ar eich trefniadau teithio a llety personol, ond rhagwelir mai tua **£1,000 – £1,500** fydd cost mynychu'r gynhadledd hon i'ch busnes.

Wrth gynllunio, rhaid ichi gofrestru i fynychu'r gynhadledd (bydd y manylion yn cael eu darparu ar ôl i ni gael eich cais). Fodd bynnag, bydd y digwyddiadau hyn yn cael eu ffrydio'n fyw. Os ydych chi'n dewis hynny, gallwch gofrestru a dewis yr opsiwn 'ffrydio byw'.

Sylwer bod gwerth ariannol y cymorth hwn yn cael ei ystyried yn gymhorthdal Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA) o dan Ddeddf Rheoli Cymhorthdal (2022) ac os bydd eich cais i fynychu'r gynhadledd yn llwyddiannus, bydd gofyn i chi lenwi ffurflen yn datgan cyfanswm gwerth y cymorth gwladwriaethol yr ydych wedi'i dderbyn yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf.

### Sut i gysylltu â ni

I gael rhagor o wybodaeth am gofrestru, neu os oes gennych ddiddordeb mynd i **Gynhadledd Ymchwil a Datblygu 2024** yn bersonol, cysylltwch â ni drwy anfon e-bost i WelshGovernmentILPMIT@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG50665
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg